

W. J. Jones yn bwrw golwg dros y Llyfrau Cymraeg a argraffwyd yn Ninas Mecsico

MAE Thomas Gray (1716–1771) yn Menwog am ei 'Elegy written in a country churchyard.' Y cyntaf (hyd y gwn) i drosi'r gerdd i'r Gymraeg oedd David Davis neu Dafis Castellhywel (1745–1827). Ni chadwodd at fydr y gerdd wreiddiol wrth wneud hynny ac ni lwyddodd i gipio'i naw. Rhaid ei bod yn boblogaidd neu'n gerdd osod yn ysgolion Cymru am flynnyddoedd achos bu'n rhaid i mi ddysgu llu o'i phenillion yn 1938 pan own i'n blentyn deg oed yn Ysgol Gynradd Ysbyty Ystwyth yng Ngheredigion. Bues hefyd yn angladd Syr John Moore yn Corunna lawer gwaith a dysgais am helyntion Abad Aberbrothock a'i gloch, ac er na ddes i ar draws 'Nant y Mynydd' Ceiriog yn yr ysgol, roedd 'The Brook' Alfred Lord Tennyson ar flaen fy nhafod i a llu o blant eraill. Ni chofiaf imi weld trosiad Dafis Castellhywel o'r gerdd pan own i'n blentyn. Cafodd ei chyhoeddi yn *Telyn Dewi* (1824).

Roedd llawer pennill yn y gerdd yn wir gofiadwy, hyd yn oed i blentyn Cymraeg ei iaith, er nad own i'n deall ystyr pob cymal ac ymadrodd. Fel y pennill hwn, er enghraifft:

Full many a gem of purest ray serene,
The dark unfathom'd caves of ocean bear:
Full many a flow'r is born to blush unseen,
And waste its sweetness on the desert air.

Un o'r rhai a'i dysgodd yn yr ysgol gynradd fel fi oedd Thomas Ifor Rees (1890–1977). Roedd yn fab i'r cerddor J. T. Rees, Cwmgiedd, ger Ystradgynlais. Treuliodd ei fab y rhan fwyaf o'i fywyd yn y Gwasanaeth Sifil gan wasanaethu fel llysgennad Prydain mewn gwledydd megis Bolivia. Trosodd farwnad Thomas Gray i'r Gymraeg ar ddechrau pedwardegau'r ganrif ddiwethaf dan y teitl: 'Marwnad a Ysgrifennwyd mewn Mynwent Wledig.' Dyma'i drosiad o'r pennill uchod:

Ceir gemau teg ynghudd yn eigion mor,
Yng nghaddug ogofeydd y dyfnder mawr;
A blodau fyrdd nas gwel ond llygad Ior,
Yn ofer berarogli anial lawr.

Cafodd y trosiad ei wobrwyo yn yr Eisteddfod Genedlaethol er nad yw'n cyrraedd safon uchel iawn. Dyw'r acen grom ddim yn ymddangos yn y penillion ac mae'n bosib nad oedd ym meddiant y wasg a'i hargraffodd achos roedd T. Ifor Rees yn brwydro'n gadarn bob amser dros burdeb y Gymraeg. Pryderai nad oedd pobl ifanc chwedegau'r ganrif ddiwethaf yn darllen Cymraeg a chyhoeddodd ddau lyfr taith ar eu cyfer mewn Cymraeg coeth, *Sajama* (1960) ac *Illmani* (1964). Mae'r ddau'n llawn lluniau lliw o'i waith ef ei hun a chostiodd eu paratoi gryn dipyn iddo. Yn anffodus doedd ei arddull ddim at ddant llawer o bobl ifanc y chwedegau.

Trof yn awr at gerdd arall, sef *Rubáyát*, cerdd Berseg Omar Khayyám. Cyhoeddwyd trosiad neu aralleiriad ohoni i'r Saesneg gan Edward FitzGerald a chyfieithodd T. Ifor Rees yr aralleiriad hwn hefyd i'r Gymraeg yn 1939. Dywed mewn rhagair i'r gyfrol: '...dyma'r unig gyfieithiad i'r Gymraeg o benillion FitzGerald y gwn i amdano...' Trosodd John Morris-Jones, waith Khayyám yn uniongyrchol o'r Berseg. Fe'i cyhoeddwyd yn 1928 gan Wasg Gregynog.

Un o benillion enwocaf trosiad FitzGerald yw:

The Moving Finger writes; and, having writ,
Moves on: nor all thy Piety nor Wit
Shall lure it back to cancel half a Line,
Nor all thy Tears wash out a Word of it.

Dyma fersiwn T. Ifor Rees:

Y Bys yn symyd sy, a'i sgrifen glaer
A saif heb obaith byth i'th weddi daer
Na'th arch ei ddenu'n ol i newid diin,
Na'th ddagrau i ddiddymu hanner gair.

Hwyrach eich bod yn gofyn erbyn hyn beth sydd a wnelo hyn oll â'r *Casglwr*? Wel, dim ond bod gen i yn fy meddiant gopiâu o'r ddwy gerdd, rhai a argraffwyd yn Ninas Mecsico gan yr American Book and Printing Co., S.A.. Argraffwyd y *Rubáyát* yn 1939 a'r farwnad yn 1942. Sonia'r *Cydymaith* am argraffiad yn 1949, 'Marwnad a Ysgrifennwyd mewn Mynwent,' ond wn i ddim am hwnnw.

Wedi iddo ymddeol roedd galw ar T. Ifor Rees i ddarlithio i wahanol gymdeithasau yng Nghymru. Yn 1960, bu'n darlithio i gynulleidfaoedd yn ne Sir Frycheiniog. Disgynnodd arnaf fi i ofalu ar ei ôl yn ystod ei deithiau yno. Roedd yn fwy cyflus i mi ei groesawu i'm haelwyd fy hun ac rown i'n falch imi wneud hynny. Roedd yn storiwr diddan a diddorol a gwrandewais i a'm teulu ar sawl hanesyn am ei helyntion mewn gwledydd megis Bolivia. Yn dâl am y croeso, rhoddodd bentwr o lyfrau i mi ac yn eu plith y ddau uchod. Roedd y *Rubáyát* wedi cael ei ail-rwymo mewn clawr caled, moel, pan gefais ef ganddo, ond meddai'r farwnad ei chlaur papur llwyd o hyd.

Doedd hi ddim mor hawdd â hynny cyhoeddi llyfrau Cymraeg yn ystod y rhyfel, a go brin y byddai llawer o groeso i drosiadau o farddoniaeth Saesneg, ond pan oedd yn gyfle ym Mecsico, gwelodd T. Ifor Rees ei gyfle mewn ffordd ddigon diddorol. Ac yntau'n un o brif swyddogion y Deyrnas Gyfunol roedd galw cyson arno i fynychu ciniawau crand. Dywedodd wrthyf ei fod yn cydeistedd ag Arlywydd Mecsico ar un adeg a throes y sgwrs at destun oedd yn gyffredin i'r ddau ohonyn nhw, sef aralleiriad FitzGerald o *Rubáyát* Omar Khayyám. Roedd y ddau ohonyn nhw wedi dotio ar waith Omar ac wedi ei gyfieithu i'w hiaith eu hunain. Cytunasant uwch gwydraid o win i drefnu i argraffu o'r trosiadau ar y cyd, gan ofyn i arlunydd o Ddinas Mecsico, Robert Hesketh, wneud y lluniau i'r fersiynau Sbaeneg a Chymraeg. Roedd hyn yn hwylus ac yn arbed arian.

Atgynhyrchaf yma lun o'r wynebddenalen a thudalen gyntaf y gerdd, i ddangos campwaith Hesketh a'r Gymraeg a Saesneg gwreiddiol FitzGerald ochr yn ochr gan yr American Book and Printing Company. Ni



DEFFROWH! Gans lluchlwyd eiaoes gan y Wawr
I'r Nos y Garrag yrr y Ser i lawr:
Ae Wale! Helwr cryf y Dwyrain sydd
A'i dennyn aur am Dwr y Swltan mawr.

Rubáyát,
Omar Khayyám

عمر خیام

Trosiad i'r Gymraeg o gyfieithiad (neu aralleiriad os mynnar)
adnabyddus Edward FitzGerald (argraffiad cyntaf)

Cyflwynedig

J. E. J.

vvvvv

Argraffwyd yn Ninas Mecsico
gan
The American Book & Printing Co., S. A.
1939


ddywedodd wrthyf faint gostiodd y fenter iddo.

Trown yn awr at y farwnad a dywed yn ei ragair iddi:

'Os gofynnir paham yr euthum i'r drafferth o argraffu'r cyfieithiad hwn, nid oes gennyf ond un ateb i'w roi – i foddio mympwy, a roes fwyndad i mi heb beri loes i arall, hyd y gwn. Wn i ddim a oedd Arlywydd Mecsico wedi dotio ar y farwnad, neu a wyddai amdani hi, hyd yn oed.'

Bid a fo am hynny, dewisodd T. Ifor Rees ddilyn yr un drefn unwaith eto dair blynedd yn ddiweddarach, a gofyn i'r American Book and Printing Company argraffu, gan ddefnyddio lluniau Robert Hesketh fel cynt. Copi clawr papur ydyw. Fel y dengys y llun o'r clawr, dewisodd argraffu eglwys wledig arno. Mae'n cynnwys lluniau pin ac inc o fyd aredig ac eglwys gwledig ar bob tudalen chwith, eto fel y dengys y darlun, ac argraffodd gerdd Thomas Gray mewn print llai yng nghefn y gwaith.

Wn i ddim pa sawl copi a argraffodd o'r ddau lyfr ond gwn fod yr awdur yn aml yn 'talu am ei le' pan oedd ar daith trwy roi llyfrau'n rhodd. Gallaf dderbyn y bydd sawl un sy'n darllen y geiriau hyn yn dweud, 'Dydyn nhw ddim yn brin. Mae copi gen i hefyd.' Eu hynodwyd yw mai yn Ninas Mecsico yr argraffwyd nhw.



WAKE! for Morning in the Bowl of Night
Has flung the Stone that puts the Stars to Flight:
And lo! The Hunter of the East has caught
The Sultan's Turret in a Noose of Light.